Munud i Feddwl

Mahmoud Ahmadinejad

Yn ôl ym mis Mai 2006, derbyniodd yr Arlywydd George W Bush (*gan.* 1946) - er mawr syndod iddo a'i lywodraeth, mae'n siŵr gen i - lythyr agored gan Mahmoud Ahmadinejad (*gan.* 1956), Arlywydd Iran. Ysgrifennwyd y llythyr gan gredadun - y Mwslim Mahmoud Ahmadinejad - at gredadun - y Cristion George W Bush. Gan fod y llythyr hwn yn llythyr cyhoeddus, anwybyddwyd yr apêl oedd ynddo fel ymgais arall eto gan Ahmadinejad, i ennill pwyntiau gwleidyddol.

Bu'r tensiynau gwleidyddol rhwng yr Unol Daleithiau â Iran yn fud losgi ers blynyddoedd, ond maent bellach wedi codi'n fflam, ac o'r herwydd mae'n werth dychwelyd at Lythyr Mai 2006.

Mae Ahmadinejad yn dechrau trwy osod Polisi Tramor yr Unol Daleithiau o dan chwyddwydr ffydd. Gofynnir i Bush i gyfiawnhau, fel Cristion, didwylledd y rhyfel yn Irac, ymwneud yr Unol Daleithiau ag Israel, ag Afghanistan ac â'r Dwyrain Canol yn lled gyffredinol: "*How can these actions be reconciled with ... duty to the tradition of Jesus Christ (Peace be upon Him) the Messenger of Peace and Forgiveness*?"

Mae'r llythyr yn erfyn ar i George Bush fod o ddifrif am ei ffydd, ac i ymuno â Ahmadinejad yn, ac oherwydd, fod y ddau yn arddel ffydd yn Nuw, i ddarganfod sut orau i gymhwyso neges y Proffwydi, o Moses i Iesu, i'r sefyllfa yn y Dwyrain Canol. "*We believe that a return to the teachings of the divine prophets is the only road leading to salvation ... surely Allah is my Lord and your Lord therefore serve him; this is the right path ... service to and obedience of the Almighty is the credo of all divine messengers"*. Fe â ymlaen i awgrymu fod democratiaeth seciwlar y Gorllewin medi methu, a bod yn rhaid i'r Gorllewin ildio o'r newydd i ewyllys y Goruchaf Dduw. (Llun: ... mewn Cyfarfod Gweddi yn cael ei arwain gan yr Penarweinydd Ayatullah Ali Khamenei)

Er y pwyslais crefyddol, dogfen wleidyddol, heb os, oedd y llythyr. Gweithred wleidyddol oedd ei gyhoeddi. Gan dderbyn y ffaith honno, a'i holl oblygiadau, erys apêl y llythyr i ddadansoddi ein polisïau rhyngwladol yng ngoleuni ffydd. Yn y llythyr, boed yn ddidwyll a'i pheidio, mae Ahmadinejad yn mynnu bod ffydd yn Nuw yn ein huno er gwaethaf yr holl wahaniaethau diwylliannol, cymdeithasol a gwleidyddol sydd rhyngom â'n gilydd.

Mae crefydd yn allweddol bwysig yn Iran ac yn yr Unol Daleithiau. Mae crefydd yn lliwio a llywio gwleidydda'r ddwy wlad fel ei gilydd; ond, yn y naill - Iran - yn fwy na'r llall mae brawdoliaeth grefyddol traws-cenedlaethol yn llawer fwy o realiti gwleidyddol. Yn yr Unol Daleithiau, mae'r hunaniaeth Americanaidd yn gryfach na'r hunaniaeth grefyddol - Iddew, Cristion ac i ryw raddau Mwslim. Derbynnir, fod gan y

llywodraeth hawl i alw ar bobl i'w amddiffyn ar faes y gad. Derbynnir hynny fel rhan annatod o'r hunaniaeth genedlaethol. Gwna berffaith synnwyr i bobl, ond buasai parodrwydd Cristion, Mwslim ac Iddew Americanaidd i ladd, a chael ei ladd ar faes y gad dros ac er mwyn Cristnogion, Mwslimiaid ac Iddewon eraill ar draws ffiniau cenedlaethol yn cael ei ystyried, gan yr union un bobl, fel peth gwyllt, ffôl ac eithriadol beryglus.

Yn y Gorllewin, mae'r cwlwm cenedlaethol a diwylliannol yn dynnach o lawer na'r cwlwm crefyddol, ond mae'r cwlwm crefyddol traws-cenedlaethol yn dynn, ac yn tynhau o hyd fyth rhwng Mwslimiaid â'i gilydd. I'r Mwslim, mae'r ddinasyddiaeth grefyddol yn dod yn bwysicach na'r ddinasyddiaeth genedlaethol.

'Roedd Mahmoud Ahmadinejad yn gwbl gywir yn ôl yn 2006 yn gofyn i George Bush i osod polisïau milwriaethus y Gorllewin o dan chwyddwydr ffydd yn Nuw. Dros y blynyddoedd aeth heibio, bu gwledydd y Gorllewin yn baglu o un drafferth i'r llall yn y Dwyrain Canol, heb ddatrys, na dysgu fawr o ddim o'r trafferthion lletchwith rheini. Mae angen pwyll gwleidyddol a chrebwyll ffydd yn awr, rhag i lywodraethau'r Gorllewin ymyrryd eto fyth yn y Dwyrain Canol. Hefyd, ac yn bwysig iawn, wrth osod y fath fin ar ei apêl i George W Bush yn 2006, ni all Ahmadinejad, yn 2012, lai na thynnu gwaed ei hun ar ei lafn ei hun. Geilw arno i ystyried ei bolisïau, ei agwedd tuag at Israel, a'i awydd mawr i berchenogi a datblygu arfau niwclear (llun: ... yn ymlwed a phrosiect Arak) yng ngoleuni'r ffydd y mae'n arddel mor bendant a chyhoeddus yn ei lythyr i George W Bush. Mynnai Ahmadinejad, yn y llythyr hwnnw, mae chwarae â'n crefydd a wnawn yma'n y Gorllewin. Efallai ei fod yn iawn, ond heddiw, gyda mwy a mwy o Fwslimiaid yn gweld bod eu hunaniaeth grefyddol yn bwysicach, yn rymusach na'u hunaniaeth genedlaethol, mae angen gwirioneddol ar i Arweinwyr Ffydd, ac Arweinwyr y Ffydd Fwslimaidd, ledled byd i osod pwysau ar wleidyddion Mwslimaidd fel Mahoumd Ahmadinejad i beidio chwarae â'u ffydd hwythau, ac o ganlyniad chwarae â ffydd eu pobl, a gofyn, yn hytrach, beth fuasai barn y Proffwyd Mohamed *('Peace be upon Him')* am ei gynlluniau gwleidyddol, adref ymhlith ei bobl yn Iran, ac ar hyd a lled y Dwyrain Canol. *OLlE*

1 Chwefror 2012